# Amser Bath

**Cytgan –**
I'r bath awn i sblisio a sblasio
i'r swigod yn y dŵr
Sgrwbio, rhwbio, sblisho a sblasho
mae hwyl i'w gael dwi'n siŵr.

**Penillion –**
Rhaid dechrau wrth dy draed
A gweithio dy ffordd lan
Coesau, bola, botwm bol
Y sebon ymhob man!

Ysgwyddau sy'n dod nesa'
A'r breichiau – golcha'r baw.
Rownd y gwddw, tan yr ên,
Dy wyneb, ath ddwy law.

I'r gwallt, shampŵ sy'n bwysig
Ie rhwbia, mewn â fe
Tywallta'r dŵr i gael y sglein,
A nawr ti'n lân – hwrê!

A sychu sychu wedyn,
Rhaid lapio'r tywel yn dynn
Wrth fynd i'r bath o hyn ymla'n
Cofia'r geiriau hyn

© 2024 S4C